

# **13.7 GWEITHDREFNAU AR GYFER DYFARNU TEITLAU ANRHYDEDDUS**

Darllenydd Anrhydeddus  
Prif Ddarlithydd Anrhydeddus  
Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus  
Darlithydd Anrhydeddus

# PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

## GWEITHDREFNAU AR GYFER DYFARNIAD TEITLAU ANRHYDEDDUS

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r cofnod Llawlyfr Academaidd hwn yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu Teitlau Anrhydeddus.

### 2. Cymhwyster

2.1 Gellir rhoi'r teitlau canlynol i unigolion nad ydynt yn aelodau o staff Prifysgol Metropolitan Caerdydd ond sy'n ymwneud ag addysgu, ymchwil neu arloesi; ac aelodau staff anacademaidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y mae eu swydd yn cynnwys dimensiwn addysgu, ymchwil neu arloesi sylweddol:

- Darllenydd Anrhydeddus mewn (maes disgyblaeth i'w gadarnhau fel rhan o'r broses ymgeisio)
- Prif Ddarlithydd Anrhydeddus
- Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus
- Darlithydd Anrhydeddus

2.2 Rhaid i ymgeiswyr ddangos lefel cyflawniad addas mewn naill ai ymarfer ymchwil, addysgu neu (ar gyfer ymgeiswyr y tu allan i Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn unig) ymarfer proffesiynol. Byddant hefyd yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, cyfraniad sylweddol i waith Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Asesir y teitl arfaethedig (Darllenydd Anrhydeddus / Prif Ddarlithydd / Uwch Ddarlithydd / Darlithydd) yn erbyn y disgrifiad swydd generig / manyleb person perthnasol neu feini prawf.

### 3. Y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion

3.1 Mae gan y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion yr hawl i ystyried ceisiadau ar gyfer Teitlau Anrhydeddus.

3.2 Cyfansoddiad y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion yw:

- Llywydd ac Is-Ganghellor (Cadeirydd)
- Dirprwy Is-Ganghellor Academaidd
- Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi
- Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Myfyrwyr
- Tri Athro a etholwyd gan y Bwrdd Academaidd.

- 3.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am hyd at gyfanswm o bedair blynedd yn barhaus.
- 3.4 Bydd gan y Pwyllgor yr opsiwn hefyd i gyfethol aelodau mewnol dros dro o'r Pwyllgor lle bo'n briodol.
- 3.5 Mae'n ofynnol i bob aelod o'r Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

#### **4. Gweithdrefnau Dyfarnu**

- 4.1 Ystyrir ceisiadau am deitlau anrhydeddus ar ddau bwynt yn y flwyddyn academaidd; yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. Cyhoeddir dyddiadau cyflwyno bob blwyddyn ar wefan AD.
- 4.2 Gall Deoniaid Ysgolion fynd at enwebai posibl i drafod y posibilrwydd o Deitl Anrhydeddus. Os bydd enwebiad i'w symud ymlaen, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu CV ac ystyrir yr achos o dan y gweithdrefnau a nodir isod.
- 4.3 Fel arall, dylai unigolion sy'n gwneud neu sy'n dymuno cyfrannu'n sylweddol at addysgu a / neu ymchwil Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer Teitl Anrhydeddus i gydnabod gwaith o'r fath, gyflwyno CV i'r Deoniaid Ysgolion perthnasol yn y lle cyntaf.
- 4.4 Dylai CV gynnwys enw dau ganolwr y gellir ymgynghori â hwy ynghylch yr enwebiad / cais. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau caniatâd y canolwyr. Rhaid i ganolwyr academaidd fod o statws sydd o leiaf yn gyfartal â theitl y mae'r unigolyn i'w ystyried ar ei gyfer; rhaid i ganolwyr anacademaidd fod â statws proffesiynol priodol. Dylai canolwyr fod yn allanol i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.
- 4.5 Rhaid i Ddeoniaid Ysgol gyflwyno argymhelliad cysylltiedig yn ysgrifenedig i Adnoddau Dynol, wedi'i gyfeirio at y Llywydd a'r Is-Ganghellor sy'n ymgorffori'r canlynol:
  - Crynodeb bywgraffyddol byr o'r ymgeisydd a'i gyflawniadau hyd yma;
  - Disgrifiad clir o gyfraniad presennol neu arfaethedig yr ymgeisydd i'r Ysgol, ac asesiad gwerth i'r Ysgol o'r cyfraniad hwn;

- Ar gyfer teitlau Darlithydd / Uwch Ddarlithydd / Darlithydd Anrhydeddus, asesiad o sut mae'r ymgeisydd yn bodloni'r swydd ddisgrifiad cyffredinol a'r fanyleb person ar gyfer y teitl dan sylw;
  - Ar gyfer Darllenydd Anrhydeddus, asesiad o sut mae'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyfredol ar gyfer Darllenydd;
  - Ar gyfer Darllenydd Anrhydeddus y teitl bwriadedig os rhoddwyd (e.e. *Darllenydd Anrhydeddus mewn Seicoleg*);
  - Argymhelliad i gyfiawnhau pam y dylid rhoi'r teitl;
  - CV yr ymgeisydd;
  - Enwau dau ganolwr allanol (gweler 4.4).
- 4.6 Ystyrir ceisiadau am deitlau anrhydeddus gan y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion ar ddau bwynt yn y flwyddyn academaidd; yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. Cyhoeddir dyddiadau cyflwyno bob blwyddyn ar wefan AD.
- 4.7 Bydd y Pwyllgor yn archwilio cais yr ymgeisydd, ochr yn ochr â'r geirdaon a dderbyniwyd a gwneud penderfyniad ar y cyd. Bydd ganddynt hefyd bŵer i argymell, os oes angen, y dylid cymryd cyngor allanol ychwanegol ac ar wahân.
- 4.8 Mae gan y Pwyllgor yr hawl i argymell teitl gwahanol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol os yw'n credu bod ymgeisydd yn bodloni proffil gwahanol yn well.
- 4.9 Os bydd y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion yn penderfynu dyfarnu'r teitl, bydd Adnoddau Dynol yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r unigolyn. Hysbysir y Bwrdd Academaidd hefyd o'r dyfarniad.

## 5. Amodau

- 5.1 Gellir dal teitl anrhydeddus am gyfnod penodol heb fod yn hwy na phum mlynedd. Pan roddwyd teitl ar sail cyfraniad arfaethedig yn hytrach na chyfraniad presennol i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, fe'i rhoddir fel arfer am hyd at ddwy flynedd ac yna ei hadolygu.
- 5.2 Gellir adnewyddu teitlau, am hyd at bum mlynedd arall ar y tro, lle mae deilydd y teitl yn parhau i gyfrannu at Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Rhaid cyflwyno enwebiadau neu geisiadau am adnewyddiadau trwy Ddeoniaid Ysgolion gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a nodir uchod. Dylai datganiad Deoniaid Ystolion nodi'n glir y cyfraniad a wnaeth y deiliad teitl ers i'r teitl gael ei roi yn wreiddiol.

- 5.3 Gall yr Ysgol berthnasol drefnu mynediad i wasanaethau TG a Llyfrgell ac i

adeiladau'r Brifysgol os oes angen. Gall deiliaid teitl anrhydeddus ddefnyddio eu teitl mewn cysylltiad â'r Brifysgol at ddibenion cyhoeddi / cyhoeddusrwydd ond nid yw'r teitl yn awgrymu unrhyw statws cyflogaeth na hawl i gydnabyddiaeth.

5.4 Mae Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cadw'r hawl i ddiddymu'r teitl ar unrhyw adeg. Hysbysir y Bwrdd Academaidd ynghylch dileu teitl a'r dyddiad pan ddaeth i rym.

## **6. Cyfleoedd Cyfartal**

6.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'i weithgareddau. Fel y cyfryw, hyrwyddir unigolion ar sail eu rhinweddau a'u galluoedd. Bydd y Pwyllgor Athrawon a Darllenyddion yn ystyried amgylchiadau anacademaidd a allai fod wedi cyfyngu neu oedi datblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd o ran cyfaint yn hytrach nag ansawdd yr allbynnau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r teitl.